## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 12 Tachwedd 2003

## Cynigion a Gyflwynwyd ar 5 Tachwedd 2003

**Dadl Fer - NDM1688 Leanne Wood (Canol De Cymru);** Iechyd Meddwl

**NDM1689 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003, y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2003.

**NDM1690 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003, yn ymwneud â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2003;

b) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003; a

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau drwy'r e-bost ar 5 Tachwedd 2003.

**NDM1691 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r adroddiad annibynnol ar gynllun gweithredu ELWa;

2. Yn croesawu'r hyn y mae ELWa wedi'i gyflawni o ran datblygu ei brosesau rheoli a busnes a bwrw ymlaen â'i ddatblygiadau trefniadol yn unol â'i gylch gwaith.

*Cafodd copi o'r adroddiad annibynnol ar gyllun gweithredu ELWa ei anfon at yr Aelodau drwy'r e-bost ar 5 Tachwedd 2003.*

**NDM1692 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu cyhoeddi’r ddogfen ymgynghori ar Symleiddio’r Trefniadau Iawndal Anifeiliaid, a gyhoeddwyd yng Nghymru a Lloegr ar 27 Hydref 2003 ac a fydd yn sail ar gyfer ystyried materion iawndal.

*Gellir darllen y ddogfen ymgynghori, "Cynigion ar gyfer symleiddio’r trefniadau iawndal ar gyfer rheoli clefydau anifeiliaid hysbysadwy" ar y we drwy ddefnyddio’r cysylltiadau isod:*

*http://www.cymru.gov.uk/subiagriculture/content/consultations/compensation-w.pdf – y ddogfen Gymraeg*

http://www.wales.gov.uk/subiagriculture/content/consultations/compensation-e.pdf – *y ddogfen Saesneg*

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 6 Tachwedd 2003

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1691**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 2 yn ei gyfanrwydd ac yn ei le rhoi:

"Yn nodi gyda phryder y diffygion difrifol yn ELWa."

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1 dileu 'Yn nodi' a rhoi 'Yn croesawu' yn ei le.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2 dileu 'Yn croesawu'r hyn y mae ELWa wedi'i gyflawni' a rhoi 'Yn nodi'r cynnydd a wnaeth ELWa' yn ei le.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl 'brosesau rheoli a busnes' ychwanegu 'fel yr amlinellir yn ei gynllun gweithredu'.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu'r canlynol fel paragraffau newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod mai cyfrifoldeb y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes oedd darparu cyfarwyddyd clir a digonol i ELWa fel corff newydd a pharhau i roi cymorth wrth i'r corff dyfu.

Yn condemnio'r Gweinidog am fethu â darparu canllawiau a chymorth digonol a arweiniodd at y cyhuddiadau damniol am ELWa mewn nifer o adroddiadau.

Yn mynnu bod y Gweinidog bellach yn derbyn cyfrifoldeb llawn am y problemau a grewyd i ELWa oherwydd iddi fethu'n llwyr â chynnig canllawiau i'r corff hwnnw.

Yn galw ar Brif Weinidog Cymru i adolygu rôl y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn y mater hwn ac ystyried a yw'r Gweinidog yn gallu rhoi'r cyfarwyddyd clir anghenrheidiol ar gyfer datblygiad ELWa yn y dyfodol."

**NDM1692**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu 'Croesawu' a rhoi 'Nodi' yn ei le.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'tra'n cydnabod bod angen rhoi sylw i unrhyw golledion a ddaw yn sgil hynny'.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 7 Tachwedd 2003

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1691**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw am ymchwiliad i rôl ELWa mewn perthynas ag Is-adran Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad ac yn benodol a ddylai ELWa gael ei symud i mewn i'r Cynulliad a'i wneud yn fwy atebol yn uniongyrchol i'r Gweinidog.'

**NDM1692**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mharagraff 2, dileu "Yn croesawu'r" a rhoi "Yn nodi'r" yn ei le.